## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **1 Rhagfyr 2021** |
| **LLEOLIAD:** | |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS**<br>**Chwarter 1 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS |

**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 1 2021/22.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2021. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:**

**DIOGELU PLANT**

- Roedd tipyn o gynnydd yn nifer yr adroddiadau diogelu plant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth/Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant, 99 o adroddiadau yn Chwarter 4 o'i gymharu â 116 yn Chwarter 1. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'r un chwarter y flwyddyn flaenorol pan gafwyd 85 o adroddiadau a aeth ymlaen i drafodaeth strategaeth/cyfarfod strategaeth. Gyda'r cyfyngiadau'n cael eu llacio a'r ysgolion yn ailagor cafwyd twf yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd ar ôl i lefelau adrodd leihau yn ystod y cyfnod clo.

- Cynhaliwyd 18 o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 9 yn y chwarter blaenorol, sef Chwarter 4.

- Cyfanswm y plant a gafodd eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dilyn Cynadleddau Cychwynnol oedd 18 yn y chwarter hwn, o'i gymharu â 7 yn ystod y chwarter blaenorol.

- Unwaith eto yr heddlu oedd y brif asiantaeth atgyfeirio yn y chwarter hwn wedi'i ddilyn gan staff Addysg ac yna staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â Chwarter 4.

- Cynhaliwyd 65 o Ymholiadau Adran 47 yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 45 yn ystod Chwarter 4. Cafodd 50 o'r 65 o Ymholiadau eu cynnal ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, cafodd 6 eu cynnal gan un asiantaeth, sef y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafodd 9 eu cynnal gan yr Heddlu yn unig.

- Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau o gam-drin/camfanteisio'n rhywiol (25) a cham-drin corfforol (24). Yn Chwarter 4 y prif gategorïau o gam-drin a gafodd eu hadrodd oedd cam-drin corfforol (17) a cham-drin rhywiol (16).

- Roedd y cynadleddau cychwynnol amddiffyn plant a gynhaliwyd yn ystod y chwarter hwn wedi dyblu o'r chwarter blaenorol. Cynhaliwyd 94.4% o'r cynadleddau cychwynnol o fewn yr amserlenni.

- Cynhaliwyd cyfanswm o 12 o Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn. Roedd y rhain ar gyfer cyfanswm o 24 o blant o 12 teulu. O ganlyniad i'r cynadleddau adolygu roedd 7 plentyn wedi parhau ar y gofrestr a chafodd 17 o blant eu dileu o'r Gofrestr Amddiffyn Plant. O'r nifer y plant a gafodd eu dileu o'r gofrestr, roedd 16 o blant yn parhau i fod yn destun Cynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth.

- Mewn 95% o'r cynadleddau a gynhaliwyd roedd o leiaf un aelod o'r teulu sydd â Chyfrifoldeb Rhieni yn bresennol yn y gynhadledd, ac mewn 90% o'r cynadleddau a gynhaliwyd cafodd barn y plentyn ei chynrychioli.

- Y prif ffactorau risg i blant a gafodd eu cofnodi o'r cynadleddau oedd cam-drin domestig, rhieni ddim yn cydweithredu â Chynllun Amddiffyn Plant, rhieni'n gwahanu, ac anawsterau iechyd meddwl rhieni.

- Roedd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gyson â'r chwarter blaenorol, fodd bynnag cafodd 17 o blant eu datgofrestru a chafodd 18 o blant eraill eu cofrestru yn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** Naddo

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

**Enw Cyswllt:** **Siân Howys**

**Swydd:** **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)**

**Dyddiad yr Adroddiad:** **2 Medi 2021**
**Acronymau:**
CP – Amddiffyn Plant
CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant

e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant